# Cymunedau Creadigol AHRC

## Papur Cythrudd Polisi Datganoli

## *Yr Amgylchedd*





Creative Communities

Arts and Humanities Research Council

Northumbria University NEWCASTLE

# Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn rhan o gyfres o bedwar Papur Cythrudd ar Bolisi a gynhyrchwyd gan raglen Cymunedau Creadigol AHRC.

Mae’n cael ei lywio gan ein Labordai Polisi – cyfres o siopau polisi sy’n cael eu hwyluso’n greadigol gyda llywodraethau, llunwyr polisïau, cyfranogwyr traws-sector, cymunedau a phobl ifanc a gynhaliwyd ledled Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, a’r deuddeg Awdurdod â Meiri yn Lloegr.

Mae'r papur hwn yn cyflwyno atebion polisi wedi'u creu ar y cyd â chyfranogwyr o'n Lab Polisi yng Nghymru yng Nghaerdydd.

Mae ei awgrymiadau ar gyfer atebion yn canolbwyntio ar ffyrdd y gall Llywodraeth Cymru ddefnyddio eu diwylliant datganoledig a phwerau polisi'r amgylchedd i ddatgloi arloesedd cynhwysol, i roi’r un cyfle i gael mynediad at ddiwylliant ac ymchwil ac i wella ymdeimlad o berthyn drwy ddarpariaeth traws-sector.

Nod yr argymhellion canlynol yw helpu i gyflawni Rhaglen Lywodraethu Cymru a chyflwyno cynigion gweithredol ar gyfer Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yng Nghymru, Cyrff Hyd Braich a rhanddeiliaid traws-sector.



# Cenhadaeth Polisi: Yr Amgylchedd

## Yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd

Sero Net | Ailgylchu a Gwastraff | Llifogydd | Llygredd

Ynni | Dŵr | Cynaliadwyedd | Cyfiawnder i'r Hinsawdd

Diogelu Dyfodol Amgylcheddol

## Cyfleoedd

Grym Stori | Atebion Cymunedol | Ynni Adnewyddadwy

Cynwysoldeb | Partneriaethau yn y Gymuned a’r Brifysgol

Pobl Ifanc sy’n Creu Newidiadau | Hunaniaeth Genedlaethol

Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol | Ymgysylltu Creadigol

Hanes a Diwylliant | Perthyn | Y Gymraeg Cydweithio

Cenedl Fach, Cyflymder Uchel | Democrateiddio Digidol

## Heriau

Penderfyniadau Tymor Byr | Tanbrisio Diwylliant | Gwyrddgalchu

Diffyg Meddwl yn Systemig | Cyllid o wahanol Ffynonellau

Polisïau’n nodi’r angen am Amrywiaeth | Busnesau Preifat

Blaenoriaethau sy’n Cystadlu | Diffyg Mannau Cyfarfod Cymunedol


Tystiolaeth Ddim yn Siarad drosti’i hun | Strwythurau Hierarchaidd

Seilos | Mesur Gwerth ac Effaith | Datgysylltiad o’r Straeon Lleol

Ymgysylltu â’r Broses o Lunio Polisïau | ROI Tymor Byr

# Cyd-destun Polisi: Yr Amgylchedd

Ers datgan argyfwng hinsawdd yn 2019, mae Cymru wedi deddfu i leihau allyriadau carbon i sero net erbyn 2050. Mae Cymru Sero Net yn gosod uchelgais i'r sector cyhoeddus yng Nghymru gyrraedd sero net gyda'i gilydd erbyn 2030. Mae'r Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd ar gyfer Cymru (2024) yn mynd i'r afael ag addasu i'r hinsawdd a chadernid yng Nghymru, gyda phob rhan o Lywodraeth yn cydweithio: o ddiogelu rhwydweithiau trafnidiaeth agored i niwed rhag tywydd eithafol, i weithio gyda Llywodraeth y DU i wella diogelwch bwyd. Fel rhan o'i ymrwymiadau sero net, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Strategaeth Gwres i Gymru (2024) ar sicrhau gwres sero net yng Nghymru erbyn 2050 ar draws pob sector. Mae Trydan Gwyrdd Cymru, datblygwr ynni adnewyddadwy yng Nghymru dan berchnogaeth gyhoeddus, wedi cael ei sefydlu i gyflymu'r gwaith o ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy, yn enwedig ynni gwynt ar y tir.



Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) (2016) yn mynnu bod yn rhaid i awdurdodau cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth a, drwy wneud hynny, hyrwyddo gwytnwch ecosystemau i sicrhau bod y manteision maen nhw'n eu darparu ar gyfer lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ar gael nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae Deddf Cynllunio (Cymru) (2015) yn gwneud darpariaeth ar gyfer datblygu cynaliadwy wrth arfer swyddogaethau sy'n ymwneud â chynllunio datblygu a cheisiadau am ganiatâd cynllunio.


Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau: gweithio gyda phobl, cymunedau a'i gilydd a gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Un o nodau canolog y Ddeddf yw creu "Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu", ac "annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau a chwaraeon a gweithgareddau hamdden."

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn ymrwymo i ddatblygu strategaeth ddiwylliant newydd i Gymru, o dan arweiniad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Cynhaliwyd ymgynghoriad yn 2024 ar Flaenoriaethau ar gyfer Diwylliant yng

Nghymru (2024 – 2030), a dyma'r prif flaenoriaethau: Mae diwylliant yn dod â ni ynghyd; Cenedl diwylliant; Mae diwylliant yn gydnerth ac yn gynaliadwy. Canlyniad Cynllun Strategol Cyngor Celfyddydau Cymru yw bod y celfyddydau'n cael effaith gadarnhaol ar les pobl yng Nghymru. Mae'n cael ei lywio'n agos gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac egwyddorion rhaglen Contract Diwylliannol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Llywodraeth. Mae ei egwyddorion wedi'u cynllunio i adlewyrchu agweddau ar y sector sydd angen newid, gweithredu ac esblygiad cadarnhaol. Sef: Creadigrwydd, Ehangu Ymgysylltiad, Y Gymraeg, Cyfiawnder i Hinsawdd, Meithrin Talent a Thrawsnewid. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi datblygu Cynllun ar gyfer Cyfiawnder i'r Hinsawdd a'r Celfyddydau, sy'n nodi sut y byddant yn gweithio gyda'r sector celfyddydau i ddefnyddio'r celfyddydau a diwylliant i ymgysylltu â chyfiawnder i'r hinsawdd.

Mae gan Gymru bedwar Safle Treftadaeth y Byd UNESCO sy'n cydnabod ei hanes dynol, ei threftadaeth ddiwydiannol a'i thirweddau hardd. Mae'r teitl hwn wedi'i gadw ar gyfer tirnodau pwysicaf y blaned fel mannau o werth eithriadol i'w gwarchod er mwyn i genedlaethau'r dyfodol eu gwerthfawrogi a'u mwynhau. Mae Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) (2023) yn dwyn ynghyd ddeddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli ar ddiogelu henebion, adeiladau ac ardaloedd cadwraeth i sicrhau bod yr amgylchedd hanesyddol yn gallu parhau i gyfrannu at les Cymru a'i phobl. Mae Siarter Creu Lleoedd Cymru wedi cael ei datblygu gan Lywodraeth Cymru a Chomisiwn Dylunio Cymru ar y cyd â Phartneriaeth Creu Lleoedd Cymru i gryfhau'r ffocws ar greu lleoedd mewn polisïau ac arferion yng Nghymru.

Mae Lab Polisi Cymunedau Creadigol Cymru AHRC 2024 wedi nodi cyfleoedd i ddiwylliant greu economi a chymdeithas gryfach a thecach drwy ddarparu ar draws sectorau i gyrraedd targedau yr amgylchedd a sero net yng Nghymru.



# Cyd-destun Datganoli: Cymru

Mae rhai materion yng Nghymru'n cael eu llywodraethu gan Lywodraeth y DU ac mae'r Cerrig Milltir ar gyfer Llywodraeth dan arweiniad Cenhadaeth yn ganolog i hyn. O'r herwydd, mae 32 Aelod o Senedd y DU yn cael eu hethol o bob etholaeth yng Nghymru. Mae gan Gymru ei llywodraeth ddatganoledig ei hun hefyd gyda 60 Aelod o'r Senedd.

Mae Llywodraeth ddatganoledig Cymru yn gyfrifol am feysydd allweddol bywyd cyhoeddus gan gynnwys addysg, iechyd, llywodraeth leol, trafnidiaeth, cynllunio, datblygu economaidd, gwasanaethau cymdeithasol, diwylliant, y Gymraeg, yr amgylchedd ac amaethyddiaeth a materion gwledig.

Mae llawer o ffactorau gwleidyddol, cymdeithasol ac economaidd yn ymwneud â gwarchod a gofalu am yr amgylchedd. Mae llunio polisïau datganoledig yn chwarae rhan allweddol o ran datgloi potensial y celfyddydau, diwylliant a'r diwydiannau creadigol i fynd i'r afael â chyfleoedd a heriau sy'n deillio o gyd-destunau amgylcheddol yng Nghymru.



# Awgrymiadau ar gyfer Datrysiad Polisi

## ✱ Cyfrwng Buddsoddi Sero Net Cymru

**Cyfrwng buddsoddi pwrpasol i ariannu ymyriadau diwylliannol newydd a fydd yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r hinsawdd mewn arferion sefydliadau, ac yn cyd-greu dyfodol Sero Net i Gymru**


### Y prif bwynt i'w gofio

Creu cyfrwng buddsoddi i ariannu prosiectau amgylcheddol newydd yn y sector diwylliant yng Nghymru.

Byddai'r cyfrwng buddsoddi yn defnyddio tystiolaeth ddatganoledig a dysgu seiliedig ar ymarfer i sicrhau elw cadarn yn y dyfodol ar fuddsoddiad ar gyfer ymyriadau newydd.

Gallai cyfrwng o'r fath sicrhau bod seiliau tystiolaeth amrywiol a phrofiad bywyd cymunedau yn cael eu cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau. Byddai'r cyfrwng buddsoddi yn cael ei gefnogi gan aelodaeth o weithredwyr aml-lefel gan gynnwys awdurdodau lleol a chynghorau, meiri ac arweinwyr awdurdodau lleol, Llywodraeth ddatganoledig Cymru, cyllidwyr, y sector gwirfoddol a chyrff anllywodraethol i ddatrys heriau mewn cydweithrediad.

Gellid defnyddio ymgynghori cyhoeddus yn ddefnyddiol i siapio'r rôl, y cylch gwaith a'r pwrpas craidd ac i sicrhau dichonoldeb ac atebolrwydd.



# Yr Arsyllfa Data Diwylliannol

## Arsyllfa data diwylliannol Cymru i gysylltu data diwylliant ac amgylchedd yn well

### Y prif bwynt i'w gofio

Mae rhanddeiliaid yn wynebu anawsterau parhaus wrth gynhyrchu a dod o hyd i ddata am werth diwylliant ac ymyriadau diwylliannol am yr amgylchedd.

Dylai Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru fuddsoddi mewn llwyfan arsyllfa data mynediad agored newydd, yn unol ag ymrwymiad i gynaliadwyedd a dull tymor hir o ymdrin ag ymchwil diwylliant yn y Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant yng Nghymru 2024-30 ac egwyddor cyfiawnder i'r hinsawdd Cynllun Strategol 2024-34 y Cyngor Celfyddydau.

Byddai llwyfan arsyllfa ddata mynediad agored newydd ar gyfer rhaglenni sy'n canolbwyntio ar y gymuned yn meithrin cysylltiadau rhwng grwpiau, rhwydweithiau a seiliau tystiolaeth presennol, ac yn mapio rhwydweithiau, buddsoddiadau a data i fynd i'r afael â'r angen presennol. Byddai hyn yn helpu i adeiladu sylfaen dystiolaeth gynaliadwy ar gyfer llunio polisïau datganoledig sy'n cael eu creu'n lleol gyda hygyrchedd byd-eang.

Byddai ysgogi diwylliant a grwpiau a rhwydweithiau cymunedol presennol i rannu data a dysgu drwy'r llwyfan yn tyfu'r sylfaen dystiolaeth, gan gyd-greu gofod arsyllfa data cynhwysol a chydweithredol.

Gallai'r hyn a ddysgwyd o brosiectau arsyllfa data cyfoes, fel Arsyllfa Data Culture Connect yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr, gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r arsyllfa data newydd.



# Rhwydwaith y Cynulliad Amgylcheddol

**Rhwydwaith Cynulliad y Bobl i gynnwys y gymuned a galluogi'r gymuned i weithredu wrth lunio polisïau amgylcheddol**

## Y prif bwynt i'w gofio

Mae datblygu polisi o'r brig i lawr, lle mae syniadau sy'n seiliedig ar leoedd yn destun ymgynghoriad, yn gallu arwain at ymgysylltu cyfyngedig â'r gymuned. Dylid darparu adnoddau i gymunedau ymgysylltu'n adeiladol â'r gwaith o lunio polisïau amgylcheddol drwy ymgysylltu ar lawr gwlad yn y tymor hir, sy'n mynd i'r afael â mentrau tymor byr a chyllid o wahanol ffynonellau.

Byddai Rhwydwaith Cynulliad y Bobl, sy'n cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, yn darparu adnoddau i alluogi ymgysylltu'n annibynnol â'r gymuned yn y tymor hir wrth lunio polisïau. Dylai hyn gael ei strwythuro i alluogi argymhellion cymunedol i gael eu bwydo'n ôl a'u gweithredu gan is-adrannau diwylliant ac amgylchedd Llywodraeth Cymru.

Dylai hygyrchedd a chydraddoldeb fod wrth galon rhwydwaith cynulliad pobl ar yr amgylchedd, gan gynnwys pobl ifanc, grwpiau amrywiol a lleisiau sy'n ddaearyddol eang. Gallai braint a diffyg gallu i ymrwymo i rolau gwirfoddol fod wedi rhoi rhai cymunedau dan anfantais yn hanesyddol rhag cymryd rhan, felly rhaid i fframweithiau gael eu cynnwys yn y rhwydwaith newydd er mwyn galluogi cyfranogiad yn benodol.

Gan adeiladu ar ethos Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chymhwyso ei ffyrdd o weithio sy'n ymwneud ag Egwyddor Datblygu Cynaliadwy, dylid edrych ar y dull strategol o'r gwaelod i fyny hwn o lunio polisïau fel model o arfer gorau. Byddai hefyd yn adeiladu ar Gynllun ar gyfer Cyfiawnder i'r Hinsawdd a'r Celfyddydau gan Gyngor Celfyddydau Cymru, sy'n creu cyfleoedd i artistiaid a chymunedau gymryd rhan mewn sgyrsiau am faterion yn ymwneud â chyfiawnder hinsawdd.



# Ysgogi Perchnogaeth Gymunedol

**Dylid grymuso cymunedau i gymryd rheolaeth ar adeiladau gwag ar gyfer prosiectau diwylliannol cymunedol sy'n canolbwyntio ar yr amgylchedd**

## Y prif bwynt i'w gofio

Mae diffyg lleoedd a mannau ar gael i gymunedau gwrdd. Dylid grymuso cymunedau i gymryd rheolaeth ar fannau gwag er mwyn gallu eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu diwylliannol sy'n canolbwyntio ar yr amgylchedd, gan ddefnyddio adeiladau gwag er budd y cyhoedd.

Mae'r Sefydliad Materion Cymreig yn nodi bod "mân fecanweithiau cyfyngedig ar gyfer rheolaeth gymunedol" yng Nghymru, y tu hwnt i'r rheini a ddarperir gan Drosglwyddiadau Asedau Cymunedol. Hefyd, nid oes "hawl statudol i gymunedau yng Nghymru brynu tir neu asedau fel yn yr Alban, ac nid oes hawl i gynnig, herio nac adeiladu fel yn Lloegr". Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cymunedau sy'n cymryd rheolaeth ar eu hasedau ac yn derbyn mewn egwyddor 15 o'r 16 o argymhellion a wnaed gan Adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar Asedau Cymunedol 2022.

Dylai Llywodraeth Cymru ysgogi'r gwaith o sefydlu'r comisiwn i ysgogi syniadau arloesol am berchnogaeth gymunedol ar dir ac asedau yng Nghymru, a grym cymunedau i gymryd perchnogaeth o adeiladau angori yn eu hamgylchedd lleol.



## Straeon Newydd am Natur

**Ymgyrch gyfathrebu ar heriau a chyfleoedd polisi amgylcheddol Cymru sy'n cael eu hadrodd drwy asedau diwylliannol y wlad**

### Y prif bwynt i'w gofio

Byddai strategaeth ymgyrch gyfathrebu benodol gan Lywodraeth Cymru – sy'n ceisio cofnodi materion polisi amgylcheddol allweddol a'u gwerth i gymunedau ledled y wlad – yn targedu ymwybyddiaeth y cyhoedd a thwristiaeth.

Gan adeiladu ar Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd ar gyfer Cymru a Strategaeth Ymgysylltu Cyhoeddus Gweithredu ar Newid Hinsawdd Cymru, byddai ymgyrch gyfathrebu strategol yn cefnogi cyhoeddiadau polisi ar yr amgylchedd a newid yn yr hinsawdd, yn cynrychioli profiad bywyd a materion cymunedol lleol iawn yn well ac yn dangos sut gall yr amgylchedd effeithio ar fywydau, iechyd, profiadau diwylliannol a swyddi pobl o ddydd i ddydd.

Dylai'r naratif newydd hwn gael ei ddatblygu ar y cyd â chymunedau i sicrhau buddsoddiad a chyd-awduraeth ar draws sectorau a cheisio mynd ati i (ail)gynrychioli materion amgylcheddol fel her i bawb, a chyfle pawb.



Creative Communities
UKRI Arts and Humanities Research Council
Northumbria University NEWCASTLE

## Cymunedau Creadigol AHRC

Mae Cymunedau Creadigol yn rhaglen ymchwil bwysig a ariennir gan AHRC ac a gynhelir gan Brifysgol Northumbria, sy'n edrych ar sut gall diwylliant sydd wedi'i greu ar y cyd wella ymdeimlad o berthyn, mynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhanbarthol, cyflawni datganoli, a chwalu rhwystrau i gyfleoedd gyda chymunedau mewn lleoliadau datganoledig ar draws pedair gwlad y DU.

**Awduron:** Helen Apsey, Arweinydd Polisi | E-bost: helen.apsey@northumbria.ac.uk
Yr Athro Katy Shaw, Cyfarwyddwr | E-bost: katy3.shaw@northumbria.ac.uk

Mae Cymunedau Creadigol yn cael ei gefnogi gan fwrdd rhaglen yn AHRC a Bwrdd Cynghori allanol. Rydym yn ddiolchgar am eu haelioni o ran amser ac am eu hadborth parhaus.

Mae'r tîm yn diolch i'r amrywiaeth eang o gyfranogwyr traws-sector yn ein Lab Polisi Cymru, a wnaeth amser i rannu eu profiadau, eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth. Cafodd yr holl weithwyr llawrydd a gymerodd ran gynnig tâl am eu hamser. Mae eu gwaith wedi bod yn amhrisiadwy o ran cynhyrchu canfyddiadau ac argymhellion.

Ariennir Cymunedau Creadigol gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (Cytundeb Grant Rhif AH/X001555/1) a'i gynnal ym Mhrifysgol Northumbria, Newcastle.